

BA Addysg Gynradd gyda SAC



Llawlyfr Profiadau Dewisol Lefel 6

2019-20

Rhesymwaith/Methodoleg:

Mae'r profiadau dewisol yn gyfleoedd datblygu proffesiynol i ddarpar athrawon dreulio amser mewn ysgol/lleoliad yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach o faes/pwnc neu themâu o ddiddordeb trwy gyfrwng arsylwadau, deialog broffesiynol, ymchwil a chasglu data.

Ar ôl ymgymryd â'r lleoliad, bydd y darpar athrawon yn lledaenu eu canfyddiadau er mwyn dangos eu dealltwriaeth a hysbysu'r ysgol o'r profiad a'r wybodaeth newydd a enillwyd (gan ddilyn model arfer da Estyn <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-ffeithiol/gwella-lles-safonau-cyrhaeddiad>).

Bydd y profiadau dewisol yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid, sef: darpar athrawon, staff ysgolion, staff Yr Athrofa a disgyblion, yn cyfrannu at bartneriaethau cyfredol gan adeiladu arnynt, yn cyfrannu at y llwybr diwygio cenedlaethol ac yn cael profiad o ffyrdd newydd o gydweithredu.

Cynhelir y profiad gan garfan blwyddyn 3 BA Addysg Gynradd gyda SAC ym mis Chwefror 2020 (10fed o Chwefror – 14eg o Chwefror; 24ain a 25ain o Chwefror). Caiff y darpar athrawon eu gosod yn eu Rhwydweithiau Ysgol Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa (PDPA) gan y Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) ac Arweinydd Rhwydwaith pob Rhwydwaith.

Thema gyffredinol:


Mae'r profiad yn gysylltiedig â modwl ymchwil a astudir gan y darpar athrawon sef ECAD6003/C Yr Ymarferydd Adfyfyriol. Bydd moeseg ymchwil, dulliau arsylwi, methodolegau a chasglu gwybodaeth oll yn rhan o'r modwl cyn, yn ystod ac ar ôl cynnal y profiadau dewisol.

Côd Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA

Disgwylir i bob un o'r rhanddeiliaid sy'n rhan o'r profiadau ddilyn gofynion proffesiynol athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg:


<https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/cod-ymddygiad-ac-ymarfer-proffesiynol-cga.html>

Mae gwneud cysylltiadau â newidiadau cyfredol mewn polisi addysg yn hanfodol ac felly yr egwyddorion cyffredinol a fydd yn arwain meddwl y darpar athrawon fydd y pedwar diben a gynigiwyd gan Donaldson (2015) .



Donaldson (2015)

Yn ogystal, bydd y darpar athrawon yn ymgymryd â'r gweithgaredd trwy rôl ymarferydd adfyfyriol gan ddilyn y model a amlinellir isod:



Yn ystod yr ymweliad, neilltuir amser ar gyfer gwahanol fathau o weithgaredd er mwyn sicrhau bod gan bob unigolyn ystod eang o brofiadau o fewn pwnc/thema benodol. Y bwriad yw i ddarpar athrawon gael profiad cyffelyb, gan gyfoethogi eu dealltwriaeth a rhoi sgil ychwanegol unigryw (USP) iddynt wrth ymgeisio am swyddi mewn ysgolion.

Bydd pob profiad yn gwahaniaethu ychydig gan ddibynnu ar y lleoliad, fodd bynnag, y disgwyliad yw y bydd pob unigolyn yn treulio'r amser yn yr ysgol/ lleoliad ac y bydd aelod o staff yr ysgol yn ymgymryd â rôl cydlynnydd profiadau dewisol dros gyfnod ymweliad y profiad dewisol. Bydd hyn yn caniatáu amser ar gyfer ymgysylltu proffesiynol trwy ddeialog a rhannu syniadau ac adfyfyrdodau.

Trosolwg disgwyliadau gan yr ysgol / darpar athrawon / staff Yr Athrofa

Rôl y darpar athro:

- ymwneud yn llawn â'r profiad dewisol er mwyn cyfoethogi'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth
- ymgymryd ag ymchwil personol yn gysylltiedig â'r maes/pwnc
- rhannu'r profiad gydag amrywiaeth o gynulleidfaoedd mewn modd proffesiynol

Rôl yr Ysgol:

- sicrhau bod y darpar athrawon yn cael eu cefnogi drwy gydol y profiad gan aelodau staff allweddol
- darparu ystod eang o gyfleoedd i ddarpar athrawon gasglu gwybodaeth
- cymryd rhan mewn deialog adfyfyriol gyda'r darpar athrawon ar amrywiol adegau
- croesawu arsylwadau a sylwadau a wnaed gan ddarpar athrawon

Rôl Yr Athrofa:

- sicrhau bod y darpar athrawon yn barod ar gyfer cyfleoedd y profiadau dewisol
- cefnogi'r darpar athrawon a'r ysgol mewn deialog adfyfyriol ar ffurf triad
- cynghori darpar athrawon ar ffynonellau gwybodaeth er mwyn ymestyn eu meddwl a'u dealltwriaeth (theori – i ymarfer).

Diwrnod 1: Dydd Llun 10fed Chwefror (Cynefino)

Diwrnod cynefino fydd y diwrnod cyntaf – dod i adnabod yr ysgol a'r ardal leol e.e. disgwyliadau o ran cyrraedd/prif ystafell (os yw'n briodol), gwybodaeth am yr ysgol – amserau ac ati, mynd am dro dysgu o amgylch yr ysgol, gweledigaeth yr ysgol, blaenoriaethau, gwaith yn y gymuned – ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n briodol ym marn yr ysgol i'w rhannu ar y diwrnod cyntaf.

Yn ogystal, bydd y darpar athrawon yn rhannu y maes a ddewiswyd yn ffocws ganddynt ar y diwrnod cyntaf hwn, ac yn sicrhau bod eu ffurflenni cofrestr/cydsynio wedi'u llofnodi gan yr aelodau priodol o staff (Atodiadau 1 a 3).


Mae angen i ddarpar athrawon sicrhau eu bod yn casglu'r holl wybodaeth berthnasol am yr ysgol ar y diwrnod hwn gan y bydd yn ffurfio rhan gyntaf eu 'hadroddiad adborth adfyfyriol' ar y diwrnod olaf.

Diwrnod 2: Dydd Mawrth 11eg Chwefror (Ethos, Gwerthoedd a Chasglu Data)

Bydd y darpar athrawon yn ennill dealltwriaeth o ethos a gwerthoedd yr ysgol, ac yn casglu gwybodaeth trwy arsylwi mewn amrywiol ddosbarthiadau – byddant wedi trafod y strategaethau casglu data cyn yr ymweliadau gyda staff y Brifysgol a rhoddir sylw i ystyriaethau moesegol yn ymwneud â chyfranogiad disgyblion/cydsyniad/hawliau plant o fewn y modwl ymchwil.

Dulliau posibl o gasglu data:

- nodiadau naratif
- siartiau symud (neu sosiogram)
- cynllun dosbarth
- ffotograffau
- mapiau swigen
- Padlet



Diwrnod 3: Dydd Mercher 12fed Chwefror (Adfyfyrio a Chynllunio i Brofi)

Diwrnod adfyfyriol fydd hwn i roi cyfle i staff a darpar athrawon drafod y wybodaeth a gasglwyd hyd yn hyn. Yn ystod y cyfnod hwn dylai fod cyfleoedd i ddarpar athrawon dynnu ar eu gwaith darllen cefndirol llyfrau/erthyglau/gwefannau) gan eu cysylltu â'r arfer a arsylwyd a datblygu dadansoddiad beirniadol, i ddechrau trwy drafodaeth a allai gynorthwyo â phrosiect ymchwil y darpar athrawon.

Gall cydlynnydd y profiadau dewisol gynllunio cyfres o weithgareddau ar gyfer y diwrnodau nesaf er mwyn galluogi'r darpar athrawon i ateb cwestiynau yn ymwneud â'u maes ffocws.

Yn y fan hon dylai darpar athrawon greu map meddwl o gwestiynau i'w hateb dros yr ychydig ddiwrnodau nesaf. Er enghraifft:



Diwrnodau 4 - 5: Dydd Iau 13eg Chwefror - Dydd Gwener 14eg Chwefror (Profi)

Neilltuir yr ychydig ddiwrnodau nesaf i gynnal ymchwiliad sy'n canolbwyntio'n fwy penodol ar y maes diddordeb. Bydd darpar athrawon yn gweithio mewn cydweithrediad â staff ysgolion/lleoliadau i gasglu data sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u dewis faes. Yn ystod y cyfnod hwn ychwanegir gwybodaeth berthnasol at yr adroddiad adfyfyriol (Atodiad 4), a gallai'r gweithgareddau gynnwys y rhai ar y rhestr ganlynol. Awgrymiadau posibl yw'r rhain ond nid yw'n rhestr gyflawn, a gallai trafodaeth rhwng y darpar athro, yr ysgol a'r Brifysgol gynorthwyo gyda'r ffocws.

- Cyfweld â'r cydlynnydd/cydlynwyr perthnasol
- Darllen polisiâu/dogfennaeth ar gyfer y maes hwnnw/meysydd perthynol
- Cysgodi aelod o'r staff
- Casglu tystiolaeth o lais y disgyblion
- Ystyried gweithio'n ehangach yn y maes hwnnw – cysylltiadau cymunedol/gwaith amlasiantaethol/cysylltiadau rhieni
- Ymchwilio i gysylltiadau DPP yn y maes hwnnw yn lleol/genedlaethol
- Ystyried casglu gwybodaeth trwy gyfrwng: holiadur/data testunol neu weledol/cyfweliadau
- Cysylltu'r dysgu â'r pedwar diben
- Ystyried cysylltiadau â chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd (e.e. llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol) os yw'n briodol
- Ystyried materion ehangach sy'n berthnasol i'r maes e.e. pontio/data/ymgysylltiad rhieni



Casglu gwybodaeth

Diwrnod 6: Dydd Llun 24ain Chwefror (Adfyfyrio, Adolygu ac Egluro)

Dyma'r diwrnod adfyfyrio olaf sy'n caniatáu i ddarpar athrawon gasglu'r wybodaeth i gwblhau eu hadroddiadau adfyfyriol. Yn ystod y cyfnod hwn gellir archwilio unrhyw gwestiynau neu wirio unrhyw agwedd y mae angen ei gwneud yn gliriach.

Diwrnod 7: Dydd Mawrth 25ain Chwefror (Cyflwyno mewn Lleoliad Proffesiynol - Rhannu)

Neilltuir diwrnod olaf y profiadau dewisol i bob darpar athro gyflwyno'r canfyddiadau i staff/rhanddeiliaid eraill yr ysgol trwy ddilyn fformat 'arfer gorau Estyn' a drafodwyd. Dylai darpar athrawon fanteisio ar y cyfle ychwanegol hwn i fireinio'u sgiliau cyfathrebu ymhellach trwy fynegi'n glir ac mewn modd proffesiynol yr agweddau hynny a oedd fwyaf o ddiddordeb iddynt.

Diwrnod	Dyddiad	Ffocws	Aelod Staff	Ffocws y Gweithgaredd
1	10/2/20	Cynefino		Cynefino
2	11/2/20	Dod i adnabod yr ysgol		Ethos, Gwerthoedd a Chasglu Data
3	12/2/20	Diwrnod adfyfyrio		Adfyfyrio a Chynllunio i Brofi
4 - 5	13/2/20 – 14/2/20	Casglu data am y maes ffocws		Profi
6	24/2/20	Diwrnod adfyfyrio		Adfyfyrio, Adolygu ac Egluro
7	25/2/20	Rhannu		Cyflwyno/Rhannu

Atodiad: 1

Cofrestr Bersonol

Enw:

Rhif Darpar athro:

Ysgol/Lleoliad:

Dyddiad	Gweithgarwch a wnaed	Llofnod (mentor, uwch fentor neu bennaeth)
10/2/20		
11/2/20		
12/2/20		
13/2/20		
14/2/20		
24/2/20		
25/2/20		

Atodiad: 2

Ymchwil yn y dosbarth gyda darpar athrawon

Ymchwil moesegol

Mae'n bosib y bydd angen i ddarpar athrawon wneud ymchwil dosbarth-seiliedig ar raddfa fechan er mwyn cwblhau aseiniadau. Dylid gwneud y llythyr sy'n dilyn yn hysbys i rieni/gwarchodwyr fel bod cydsyniad gwybodus neu gais i dynnu allan o'r ymchwil sy'n cael ei wneud yn cael ei ganiatáu:

Mae'r ysgol hon yn bartner gyda'r bartneriaeth dysgu proffesiynol sy'n rhan o'r Athrofa ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin ac Abertawe. Mae'r ysgol hon yn cynnig lleoliadau i ddarpar athrawon. Pan fydd darpar athrawon yn gweithio yn yr ysgol maent bob amser dan oruchwyliaeth yr athro dosbarth. Pwrpas y llythyr hwn yw eich hysbysu y bydd yn ofynnol i ddarpar athrawon, fel rhan o'u hasesiad yn y Brifysgol, werthuso arfer yn y dosbarth. Weithiau bydd hyn ar ffurf gwerthusiad neu asesiad ysgrifenedig o waith plant a gall hefyd olygu gofyn i staff a phlant am eu safbwyntiau. Nid yw'r gweithgaredd hwn yn wahanol i arfer dosbarth arferol.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y gwaith sy'n mynd ymlaen yn nosbarth eich plentyn, mae croeso i chi ofyn i'r athro dosbarth. Yn dilyn y drafodaeth hon, os penderfynwch nad ydych am i'ch plentyn gymryd rhan mewn unrhyw werthusiad dosbarth a gynhelir gan ddarpar athrawon, yna rhowch wybod i'r athro dosbarth.

Os hoffech ragor o wybodaeth am addysg gychwynnol a hyfforddiant athrawon newydd cysylltwch â PDPA trwy'r uwch weinyddwr, Christine Rees.

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen y wybodaeth hon.

Atodiad: 3



Ffurflen Gydsynio

Rhaid i ddarpar athrawon gael y cydsyniad ysgrifenedig canlynol gan y pennaeth cyn tynnu lluniau, ffilmio neu recordio dysgwyr.

Rwy'n cytuno y gall _____ fel cynrychiolydd o'r Athrofa:

Dynnu lluniau	Cyfweld	
Cymryd fideo	Dyfynnu dogfennau polisi'r ysgol	
Recordio	Cynnal holiaduron	(Ticiwch fel y bo'n briodol)

Enw'r Pennaeth _____ Llofnod _____

Enw'r ysgol _____

I'w gwblhau gan y darpar athro:

Os caf i ganiatâd o'r fath, cytunaf i gadw at y foeseg sydd wedi'i hymgorffori yng Nghod Ymarfer CGA ac ni fyddaf yn dosbarthu unrhyw ddeunydd o'r fath i gynulleidfaoedd y tu hwnt i awdurdodau'r Brifysgol heb eu caniatâd.

Enw'r darpar athro:

Llofnod:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

Rhaglen (e.e. BA Add/TAR Cynradd/TAR Uwchradd):

Dyddiad:

Atodiad: 4

Darllen ac Ymchwil o ffynonellau gwybodaeth:

1.

2.

3.

4.

5.

Arsylwadau cyffredinol/casgliadau data :

Dyddiad	Digwyddiad	Sylwadau
